



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Awst a Medi 2014

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)? A diolchaf i Delyth am y gymwynas.

3 Awst

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

10 Awst

Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun unedig i Seion a Brynhafod

17 Awst

Noddfa	10.00 y bore	Oedfa unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
--------	--------------	---

24 Awst

Soar	10.30 y bore	Oedfa Eisteddfod Pantyfedwen dan ofal Mr Tudur Dylan
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig i Seion a Brynhafod dan ofal y Parchg Wynn Vittle

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)**31 Awst**

Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

7 Medi

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Oedfa a phicnic, lleoliad i'w gadarnhau

14 Medi

Aberduar	10.00 y bore	Mr Gwilym Jones
Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Fethel, Caersalem a Noddfa, dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan

21 Medi

Noddfa	9.30 y bore	Cymun
Aberduar	11.00 y bore	
Caersalem	2.00 y prynhawn	

28 Medi

Aberduar	10.00 y bore	Ms Beth Davies
Bethel	10.15 y bore	
Seion	3.00 y prynhawn	
Brynhafod	7.00 yr hwyr	Cymanfa Ddiolchgarwch

Rhaghysbys 5 Hydref

<i>Aberduar</i>	<i>10.00 y bore</i>	<i>Cymun</i>
<i>Caersalem</i>	<i>2.00 y prynhawn</i>	<i>Cymun</i>
<i>Noddfa</i>	<i>3.30 y prynhawn</i>	<i>Cymun</i>

Oedfa eciwmenaidd

18 Medi 2014
Eglwys San Tomos
7 yr hwyr
Croeso i bawb

Dathlu: bydd chwiorydd Aberduar yn dathlu 70 mlynedd o weithgaredd yn nes ymlaen y flwyddyn hon, a bwriadau ar y gweill i wneud hynny mewn steil. Cadwch eich clustiau'n agored bobl Aberduar!

Mis Medi: Cinio'r Cylch - manylion i ddilyn

Senana

Cynhelir cynhadledd flynyddol y Senana yn Llanbedr Pont Steffan eto eleni, o'r 2il o Fedi tan y 4ydd. Ar gyfer ymwelwyr dydd, mae'r gweithgareddau yn dechrau ar nos Fawrth, ac ar derfyn y noson, Janet Noddfa fydd yn cymryd at yr epillog. Yna ar fore dydd Mercher a dydd Iau, fe fydd yr astudiaethau beiblaidd (yn fy ngofal i eleni) am 9.30, gyda grwpiau trafod i ddilyn, ac yna, wedi coffi, sesiynau'r gweithiwr cenhadol. Mae ychydig o amser rhydd prynhawn dydd Mercher, cyn yr oedfa gymun ar y nos Fercher gyda'r Parchg Irfon Roberts yn gwasanaethu, drwy wahoddiad y llywydd, Eiluned Ann, Bodedern. Rhowch wybod i mi os gwelwch yn dda os oes gennych ddiddordeb i ddod ac yna gallaf wneud yn siwr eich bod yn cael manylion amseroedd y sesiynau yn agosach i'r amser.

Menna Machreth

Edrychwn ymlaen at groesawu atom Dr Menna Machreth Llwyd, cydlynnydd cenhadaeth yr Undeb, i Noddfa gyda'r hwyr ar y 14eg o Hydref, i ysgogi trafodaeth ar bwnc ein rhan ni yng nghenhadaeth Crist. Gan mai o Noddfa y daw'r symbyliad i'w gwahodd, fe fydd y trafod yn canolbwyntio ar sefyllfa Noddfa, ond mae croeso i aelodau eglwysi eraill y Cylch fanteisio ar y cyfle i gwrdd â Menna, ac i wrando i mewn ar beth fydd ganddi i'w ofyn ac i'w ddweud.

Diolchgarwch

Daeth hi'n oedfaon diolchgarwch eglwysi'r Cylch felly dyma restr o'r trefniadau mor belled â'u bod yn hysbys hyd yn hyn:

28 Medi	Brynhafod	7 yr hwyr	Cymanfa Ddiolchgarwch
29 Medi	Noddfa	7 yr hwyr	Mrs Delyth Morgans Phillips
2 Hydref	Seion	7 yr hwyr	Parchg Stephen Morgans, Trefilan
6 Hydref	Bethel	7 yr hwyr	Parchg Judith Morris, Aberystwyth
9 Hydref	Caersalem	7 yr hwyr	Mrs Delyth Morgans Phillips
15 Hydref	Aberduar	2 y prynhawn a 7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin

Cyrddau blynyddol Mudiad y Chwiorydd

Cynhelir y cyrddau hyn yn Aionon Ynyshir (CF39 0EN) ar y 24ain o Fedi, pan ddaw Mrs Enid Edwards yn llywydd am y flwyddyn 2014/15. Edrychaf ymlaen at gael cwmni rhai o ferched y Cylch i fynd i'r cyrddau yn Aionon fel bod gennym syniad beth sydd ei angen erbyn pan ddaw'r cyrddau i Aberduar ar y 16eg o Fedi y flwyddyn nesaf. Gobeithio y bydd sawl car yn mynd felly os oes diddordeb gennych os gwelwch yn dda cysylltwch â mi ar y 31ain o Awst pan fyddaf yn ôl o fy ngwylliau ac yn pregethu yn y Cylch. Bydd hynny'n rhoi digon o amser inni drefnu pwy sy'n mynd gyda phwy, a chyfle hefyd imi anfon am docynnau te ar fore'r 1af o Fedi.

Rhaghsbys:

Cofiwch am Arwerthiant Blynyddol Seion yn y festri ar 29ain o Dachwedd am 3 o'r gloch. Croeso i bawb.

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufis*.

Cysylltiadau'r eglwysi ar y we:

Diolch i Delyth a Rob Phillips, mae gennym erbyn hyn wefan ar gyfer y Cylch, sef:

www.bedyddwyrsgleddeifi.org

yn ogystal, cyfrif trydar (*twitter*)

@BedyddGogTeifi

Mae rhai grwpiau *facebook* hefyd ar gael, sef Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod a Noddfa

... felly beth sy'i eisiau nawr yw i bob eglwys yn unigol benderfynu beth sy'n bwysig i'w roi ar y we fel cyflwyniad i fywyd a chroeso'r eglwys. Amser cael y camera ma's!

Cylch Darllen - yn ail-ddechrau ar y 10fed o Fedi, am 10.30 yn festri Noddfa. Croeso i rai newydd ymuno gyda ni am baned a darllen, ac yna, sgwrs, am argraffiadau, ac ystyr, rhan o'r Beibl. Y thema eleni: Credaf...

Llongyfarchiadau!

Daeth hi'n ddiwedd cyfnod asesu ac arholiadau, felly llongyfarchiadau i'n pobl ifainc am ddal ati, a llongyfarchiadau hefyd am y newyddion am lwyddiant a graddio a ddaeth ac a ddaw. A dymuniadau gorau i bob un fydd yn mentro eto i gy-stadleuthau dros yr haf.